Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **28 Chwefror 2017** |
| **Amser:** | **14:00 – 16:50** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DBG)<br>Arol. Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)<br>Arol. Anthony Evans, Swyddog Staff (AE)<br>Mrs Alison Perry, Cyfarwyddwr Comisiynu (CC)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu (GM)<br>Mrs Lynne Davies, Prosiect Llywodraethu'r Heddlu (PLlH)<br>Arol. Jonathan Rees (JR)<br>Miss Mair Harries, Cymorth Gweinyddol, SCHTh (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 15/2/17** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2107** | **CA i gadarnhau'r amserlenni ar gyfer defnyddio SCHTh fel peilot ar gyfer y system PDR newydd.** | **Cyfredol** |
| **PB 2108** | **Y PG i rannu polisi drafft a baratowyd gan weithrediadau mewn perthynas â chyflau poeri.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2109** | **Bydd y PG yn rhoi manylion costau materion sefydliadol diweddar i'r CHTh.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2110** | **Y PG i roi diweddariad ar gynlluniau'r heddlu i ymdrin â bwlio mewn ysgolion dros y misoedd i ddod.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2111** | **Y PG i gyflwyno dogfen i'r CHTh sy'n cynnwys nifer yr arestiadau yn ystod cyfnod penodol, gan edrych ar Sir Gaerfyrddin a Llanelli yn arbennig.** | **Cyfredol** |
| **PB 2112** | **Y PG i gyhoeddi manylion gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyffuriau dros y 6 mis diwethaf, a'r frwydr parhaus a rhagweithgarwch yr heddlu, i'r cyfryngau.** | **Cyfredol** |
| **PB 2113** | **Y PG i gysylltu Ymgyrch Darwen â diwrnodau gweithredu'r URS a chynnwys gwirfoddolwyr.** | **Cyfredol** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2114** | **CC i roi gwybodaeth am gostau mewn perthynas ag Ymgyrch Darwen i'r CC.** | **Cyfredol** |
| **PB 2115** | **Y CY i fynychu cyfarfod gyda'r PG a Chomanderiaid URS ar 9/3/17 i drafod gofynion gweithredol ar gyfer ystadau.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2116** | **Paul Morris i gynorthwyo â drafftio Mynegiannau o Ddiddordeb i'w cyflwyno erbyn 28/2/17.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2117** | **PG i ddrafftio ymateb i'r PG Thornton** | **Cyfredol** |
| **PB 2118** | **Rhoi gwybodaeth i'r CHTh mewn perthynas ag effaith newidiadau sifft ar wasanaethau i'r cyhoedd, a'r PG i ystyried ymateb i bryderon a godwyd yn Ninbych-y-pysgod gan y cyfryngau lleol.** | **PG i ddarparu strategaeth gyfathrebu** |

**Cam Gweithredu: CHTh i roi adborth i'r heddlu mewn perthynas â'r Polisi Drafft parthed Cyflau Poeri o flaen Bwrdd Gweithredol yr Heddlu ar 21 Mawrth.**

**Cam Gweithredu: AE i siarad â Huw Meredith yn yr Adran Weithrediadau am gost nifer y digwyddiadau Darwen rydyn ni'n cynnal, a chost Dyddiau Darwen ychwanegol.**

**Cam Gweithredu: Y PG a'r DBG i adolygu gohebiaeth mewn perthynas â PB 2117 – Ymateb i Sarah Thornton.**

**Cam Gweithredu: AE i ymgysylltu â'r Cyfarwyddwr Cyllid Ed Harries mewn perthynas â darparu rhai ffigurau ar gyfer adfer costau mewn perthynas â'r cynllun ailhyfforddi gyrwyr.**

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 28/02/17** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 24** | **Penderfyniad: Gyda chymeradwyaeth y Prif Gwnstabl, mae SCHTh yn mabwysiadu polisïau AD yr Heddlu.** | **PS** |
| **PB T2 25** | **Penderfyniad : Cymeradwyo'r cytundeb ar gyfer comisiynu'r Gwasanaeth Cyfeirio Dioddefwyr.** | **PG** |
| **PB T2 26** | **Penderfyniad : Cymeradwyo'r cytundeb ar gyfer comisiynu arolygon Bodlonrwydd Dioddefwyr.** | **PG** |
| **PB T2 27** | **Penderfyniad : Does dim gofyniad i olygu dogfennaeth a rennir â'r Panel Gwarediadau y Tu** | **PS** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Allan i'r Llys a'r Panel Sicrhau Ansawdd. Dylid parhau i olygu dogfennaeth ar gyfer y Panel Stopio a Chwilio.** | |
| **PB T2 28** | **Penderfyniad : Cymeradwyodd y CHTh wobrwyo'r cytundeb.** | **CHTh** |

## 2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 15 Chwefror a materion yn codi

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod, ond roedd camgymeriad o ran strwythur brawddeg ar dudalen 2 yr oedd angen diwygio.

PB 2111: Y CHTh i godi'r mater â Carl Sergeant yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr heddlu ddydd Gwener 3 Mawrth.

PB 2118: Y PG i sicrhau bod strategaeth gyfathrebu mewn grym sy'n pwysleisio nad yw plismona'n cael ei gynnal o orsafoedd heddlu.

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

Rhoddodd y PG drosolwg o faterion sefydliadol, gan gynnwys y ffaith bod 7 aelod staff wedi'u hatal o'u gwaith, a bod 3 ymosodiad lefel is wedi digwydd yn erbyn swyddogion heddlu, gyda phob swyddog dal ar ddyletswydd. Cadarnhaodd y CHTh bod yr aelodau staff yr effeithiwyd arnynt yn derbyn gwiriad lles.

Mynegodd y PG ei fodlonrwydd o ran penodi Darren Davies yn Ddirprwy Brif Gwnstabl. Cafwyd trafodaeth am gwblhau Rhaglen Arweinyddiaeth a Strategaeth a Gweithgarwch Arweinyddiaeth yr Heddlu. Pwysleisiodd y CHTh bwysigrwydd y Rhaglen Arweinyddiaeth mewn perthynas â'r Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a gofynnodd am drafodaeth mewn perthynas â blaenoriaethau allweddol.

**Cam gweithredu: Y DBG i ymgysylltu â'r PGC/DD Pam Kelly a'r Prif Uwch-arolygydd Richard Lewis mewn perthynas â'r rhaglen arweinyddiaeth.**

**Cam gweithredu: Yr Heddlu i ymgysylltu â'r PS mewn perthynas â rhaglen arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod uniad rhwng yr Heddlu a SCHTh.**

**Cam gweithredu: CHTh i adrodd yn ôl i'r Prif Gwnstabl ar ôl ei gyfarfod gyda Chyfarwyddwr Cynorthwyol yr Adran Gwasanaethau Pobl, Tracey Hawthorne.**

## 4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Cynghorodd y CHTh y Bwrdd ei fod wedi cwrdd â'r Adran Ystadau yn ystod yr wythnos flaenorol, a bod y cyfarfod wedi mynd rhagddo'n dda. Cyfeiriodd y CHTh at gyfarfodydd ychwanegol mewn perthynas â materion Ystadau gyda'r CY, cyfarfodydd rhwng y CC, PS a'r Uwch Reolwr Dylan Davies, a materion yn codi o'r cyfarfodydd hynny.

Gofynnodd y PS am gymeradwyaeth y PG o ran SCHTh yn mabwysiadu Polisïau AD yr Heddlu.

**Penderfyniad: Gyda chymeradwyaeth y Prif Gwnstabl, mae SCHTh yn mabwysiadu polisïau AD yr Heddlu.**

Mynychodd y CHTh gyfarfod cyntaf Bwrdd TGCh yr Heddlu fel Aelod Bwrdd, a thrafododd faterion yn codi o'r cyfarfod cyntaf y bydd yn symud ymlaen â nhw gyda Steve Harvard. Codwyd y mater o gapasiti; dywedodd y PG ei fod wedi codi'r mater mewn cyfarfod o'r Grŵp Prif Swyddogion ar 14 Chwefror. Cefnogodd y PG y CHTh o ran trafod y mater â Steve Harvard, ac o bosibl, ei gysylltu â strategaeth TGaCh o brynu adnoddau ychwanegol.

**Materion yn codi**

**PB 2079 - cytundebau bodlonrwydd defnyddwyr/cyfeirio dioddefwyr**

Mynychodd y CC 30 munud cyntaf cyfarfod y Bwrdd Plismona er mwyn cyflwyno'r eitem agenda hwn.

Cyflwynodd y CC ddau bapur gan ddechrau gyda'r Gwasanaeth Cyfeirio Dioddefwyr. Bydd Gwasanaethau ar gyfer Dioddefwyr yn cael eu cyflwyno'n fewnol er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr. Cynghorodd y CC bod y Bwrdd yn cymeradwyo cytundeb 3 blynedd drwy'r Ddogfen Cyfeirio Dioddefwyr. Cafwyd trafodaeth am Nodau ac Amcanion y gwasanaeth, monitro perfformiad a'r agwedd ariannol. Dywedodd y CC bod gwaith yn cael ei gwblhau gydag ICAT er mwyn darparu asesiad risg. Cafwyd trafodaeth am edrychiad y wefan a dolenni i wefan yr Heddlu.

**Penderfyniad : Cymeradwyo'r cytundeb ar gyfer comisiynu'r Gwasanaeth Cyfeirio Dioddefwyr.**

Cyflwynodd y CC y cytundeb ar gyfer yr Arolwg Bodlonrwydd Dioddefwyr a dywedodd y byddai'r Swyddfa Gartref yn llacio'r canllawiau sgript o fis Ebrill 2018 a fyddai'n caniatáu i'r gwasanaeth fod yn fwy hyblyg. Roedd y CHTh yn falch y byddai gan ei swyddfa fwy o reolaeth dros y gwasanaeth.

**Cam Gweithredu: Y PG i drefnu plymio dwfn o'r system ymhen 9 mis i asesu'r trawsnewid.**

**Penderfyniad : Cymeradwyo'r cytundeb ar gyfer comisiynu arolygon Bodlonrwydd Dioddefwyr.**

**Cynllun Cyflenwi ar gyfer yr Heddlu a Throseddu**

Mae'r Tîm Cynllun Cyflenwi'r Heddlu a Throseddu'n cynnwys GM, GPM a JR.

Cyflwynodd y Tîm Cynllun Cyflenwi'r Heddlu a Throseddu y Cynllun ar Dudalen a thrafodwyd y matrics cynllun cyflenwi maen nhw wedi cynllunio. Mae'r tîm yn symud o gam ymgynghori i gam datblygu. Cafwyd trafodaeth ar ôl rhannu'r matrics cynllun cyflenwi.

Cafwyd trafodaeth am waith gweithredol y Cynllun Heddlu a Throseddu a thrafododd y Bwrdd fynd â'r mater ymlaen i Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.

**Cam Gweithredu: Y PG i sicrhau slot awr ar gyfer y Tîm Cynllun Cyflenwi yn y cyfarfod URS ar 16 Chwefror.**

**Cydweithio**

Trafododd y Bwrdd ohebiaeth gan y CHTh Alun Michael ynglŷn â chyfleoedd cydweithio posibl gyda Gwent a De Cymru. Dywedodd y PG y bydd yn trafod y mater gyda Phrif Gwnstabl De Cymru yr wythnos nesaf. Cadwyd trafodaeth am ymarferoldeb cyfleoedd cydweithio o'r fath.

**Cam Gweithredu: Y CHTh i gyfathrebu â'r CHTh Alun Michael a dweud bod y mater o gydweithio wedi'i drafod a'i dderbyn yn ffafriol mewn egwyddor.**

Cafwyd trafodaeth am yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans, sydd eisio uno dwy ganolfan yng Ngogledd Cymru a chau un ganolfan yn Ne Cymru. Mynychodd y CHTh gyfarfod gyda Rheolwr Ystadau'r Ymddiriedolaeth Ambiwlans ar 15 Chwefror, ac mae'n obeithiol y gellir cyflwyno cynnig deniadol i'r Ymddiriedolaeth.

**Golygu**

Cafwyd trafodaeth am olygu dogfennaeth a ddarperir i aelodau'r Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys, y Panel Sicrhau Ansawdd a'r Panel Stopio a Chwilio.

Yng ngoleuni'r ffaith bod y Panel Sicrhau Ansawdd wedi'i ail lansio, a phob aelod wedi'i fetio ac arwyddo cytundeb cyfrinachedd yng ngoleuni'r prosesau a fabwysiadwyd lle maw gwybodaeth yn cael ei chadw mewn un ystafell, cytunwyd na fyddai angen golygu gwybodaeth ar gyfer y Panel Sicrhau Ansawdd. Yn yr un modd, yng ngoleuni cyflwyno'r cyfleuster TG Varonis, cytunwyd na fyddai angen golygu gwybodaeth ar gyfer y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys. Fodd bynnag, teimlwyd y dylid parhau i olygu gwybodaeth Stopio a Chwilio a rennir.

**Penderfyniad : Does dim gofyniad i olygu dogfennaeth a rennir â'r Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys a'r Panel Sicrhau Ansawdd. Dylid parhau i olygu dogfennaeth ar gyfer y Panel Stopio a Chwilio.**

**Unrhyw Fusnes Arall**

**Gwobr Tendr Sengl**

Cyflwynwyd Adroddiad Tendr Sengl mewn perthynas â'r gefnogaeth flynyddol ar gyfer y system rheoli a gorchymyn STORM. Cydnabu bod dewisiadau amgen cyfyngedig ac y byddai cytuno ar gytundeb 5 mlynedd yn fuddiol iawn. Cadarnhawyd y dylai cwmni TGCh yr Heddlu drafod gwell bargen yn y dyfodol er mwyn inni allu manteisio ar y prisiau is.

**Penderfyniad : Cymeradwyodd y CHTh wobrwyo'r cytundeb.**

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 28/02/17** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2119** | **CHTh i roi adborth i'r heddlu mewn perthynas â'r Polisi Drafft parthed Cyflau Poeri o flaen Bwrdd Gweithredol yr Heddlu ar 21 Mawrth.** | **CHTh** |
| **PB 2120** | **AE i siarad â Huw Meredith yn yr Adran Weithrediadau am gost nifer y digwyddiadau Darwen rydyn ni'n cynnal, a chost Dyddiau Darwen ychwanegol.** | **AE** |
| **PB 2121** | **Y PG a'r DBG i adolygu gohebiaeth mewn perthynas â PB 2117 – Ymateb i Sarah Thornton.** | **PG a DBG** |
| **PB 2122** | **AE i ymgysylltu â'r Cyfarwyddwr Cyllid Ed Harries mewn perthynas â darparu rhai ffigurau ar gyfer adfer costau mewn perthynas â'r cynllun ailhyfforddi gyrwyr.** | **AE** |
| **PB 2123** | **Y DBG i ymgysylltu â'r PGC/DD Pam Kelly a'r Prif Uwch-arolygydd Richard Lewis mewn perthynas â'r rhaglen arweinyddiaeth.** | **DBG** |
| **PB 2124** | **Yr Heddlu i ymgysylltu â'r PS mewn perthynas â rhaglen arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod uniad rhwng yr Heddlu a SCHTh.** | **PG** |
| **PB 2125** | **CHTh i adrodd yn ôl i'r Prif Gwnstabl ar ôl ei gyfarfod gyda Chyfarwyddwr Cynorthwyol yr Adran** | **CHTh** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Gwasanaethau Pobl, Tracey Hawthorne.** | |
| **PB 2126** | **Y PG i drefnu plymio dwfn o'r system ymhen 9 mis i asesu'r trawsnewid.** | **PG** |
| **PB 2127** | **Y PG i sicrhau slot awr ar gyfer y Tîm Cynllun Cyflenwi yn y cyfarfod URS ar 16 Chwefror.** | **PG** |
| **PB 2128** | **Y CHTh i gyfathrebu â'r CHTh Alun Michael a dweud bod y mater o gydweithio wedi'i drafod a'i dderbyn yn ffafriol mewn egwyddor.** | **CHTh** |